| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 23 Hydref 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Bwyllgora 3 & 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yng Nghymru** |

## Diben

1. Papur i'w nodi gan y Pwyllgor ar feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yng Nghymru.

## Cefndir

2. Yn Adroddiad Misol y Gweinidog i'r Pwyllgor ar 17 Ebrill 2002, cyflwynwyd ffigurau newydd ar feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau ar gyfer 2000. Gofynnodd yr Aelodau am weld y ffigurau fesul ardal awdurdod lleol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi amcangyfrif dros dro o niferoedd a chyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched a oedd fel arfer yn byw yn ardaloedd awdurdodau unedig yng Nghymru yn 2000.

## Cyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched dan 18 oed

3. Mae cyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched dan 18 oed yng Nghymru yn 2000 (gweler Tabl 1, Atodiad 1) yn dangos gostyngiad o 7 y cant, bron, yn y gyfradd feichiogrwydd ymhlith merched dan 18 oed ers 1999. Mae wedi gostwng bron i 14 y cant ers 1998, sy'n gyfystyr â thua 400 yn llai o achosion o feichiogi ymhlith merched dan 18 oed. Mae'n bwysig nodi bod cyfraddau beichiogrwydd wedi amrywio yn y blynyddoedd blaenorol, er enghraifft rhwng cyfradd isel o 46.5 o bob 1000 o ferched 15-17 oed ym 1994 a chyfradd uchel o 54.8 ym 1998. Cyn y gallwn fod yn hyderus bod y tueddiad hwn o ostyngiad yn y cyfraddau’n un parhaus, rhaid casglu data am fwy o flynyddoedd.

4. Mae Tabl 2 yn Atodiad 1 yn dangos y cyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched dan 18 oed fesul ardal awdurdod unedig. Wrth ddangos y ffigurau fesul ardaloedd lleol mae nifer yr achosion o feichiogrwydd ym mhob ardal yn gymharol fach. Caiff y cyfraddau eu cyfrifo felly ar gyfartaledd dreigl am gyfnodau o dair blynedd. Mae'r cyfraddau hyn yn llai sensitif i amrywiaethau blynyddol. Dyma wybodaeth allweddol o Dabl 2:

- Dim llawer o amrywiaeth yn y cyfraddau beichiogrwydd cenedlaethol ymhlith merched dan 18 oed rhwng 1995-97 a 1998-2000 (y naill yn 51.3 a'r llall yn 51.0 o bob 1000 o ferched 15-17 oed).
- Roedd y cyfraddau uchaf o feichiogrwydd ymhlith merched dan 18 oed yn ystod 1998-2000 ym Mlaenau Gwent (69.2 o bob 1000 o ferched 15-17 oed), Caerffili (64.7 o bob 1000 o ferched 15-17 oed), Merthyr Tudful (64.3 o bob 1000 o ferched 15-17 oed) a Rhondda Cynon Taf (63.4 o bob 1000 o ferched 15-17).
- Roedd y cyfraddau isaf o feichiogrwydd ymhlith merched dan 18 oed yn ystod 1998-2000 yn Sir Fynwy (28.6 o bob 1000 o ferched 15-17 oed), Powys (32.4 o bob 1000 o ferched 15-17 oed) a Cheredigion (33.6 o bob 1000 o ferched 15-17 oed).
- Y gostyngiad mwyaf yn y cyfraddau a gyflwynwyd oedd y gyfradd ar gyfer: Conwy (50.0 ym 1998-2000 o'i gymharu â 55.1 ym 1995-97); Merthyr Tudful (64.3 ym 1998-2000 o'i gymharu â 68.7 ym 1995-97); a Bro Morgannwg (41.1 ym 1998-2000 o'i gymharu â 45.3 ym 1995-97).
- Y cynnydd mwyaf yn y cyfraddau a gyflwynwyd oedd y gyfradd ar gyfer: Sir y Fflint (46.2 ym 1998-2000 o'i gymharu â 40.4 ym 1995-97); a Cheredigion (33.6 ym 1998-2000 o'i gymharu â 29.5 ym 1995-97).

5. Dylid nodi bod y cyfraddau yn seiliedig ar amcangyfrif o ffigurau poblogaeth fesul oed a gyhoeddwyd cyn i ganlyniadau cyntaf cyfrifiad 2001 gael eu cyhoeddi ar 30 Medi 2002. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, erbyn Mawrth 2003, yn cyhoeddi ffigurau poblogaeth diwygiedig fesul oed ac ardal awdurdod lleol a fydd yn effeithio ar union lefelau’r cyfraddau a gyflwynir yn y papur hwn. Gallai hynny newid sefyllfa gymharol rhai awdurdodau gan gynnwys, o bosibl, y rheini sydd â'r cyfraddau uchaf neu isaf. Fodd bynnag, ni ddylai'r ffigurau diwygiedig terfynol newid y darlun cyffredinol yn sylfaenol.

**Mynd i'r afael â beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau**

6. Un o amcanion y *Fframwaith Strategol ar gyfer Hybu Iechyd Rhywiol yng Nghymru* yw gostwng cyfradd beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau. Mae nifer o ffactorau wedi cael eu nodi fel rhai sy'n cyfrannu at gyfraddau uchel o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau. Ymhlith y rhain y mae: disgwyliadau isel yn gysylltiedig ag anfantais; anwybodaeth ynghylch dulliau atal cenhedlu; negeseuon cymysg am ryw gan y cyfryngau, rhieni a sefydliadau cyhoeddus. Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod angen dull o weithio 'di-fwlch' er mwyn mynd i'r afael â beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau. Aethpwyd ati i roi'r Strategaeth ar waith yn ystod hydref 2000. Ni ellir asesu effaith y Strategaeth ar gyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau nes y bydd cyfraddau beichiogrwydd ar gyfer 2001, ac wedi hynny, ar gael.

7. Isod nodir nifer o fentrau ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n mynd i'r afael â'r gwaith o geisio atal beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau:

- Mae nifer o fentrau sy’n seiliedig ar iechyd yn cael eu creu er mwyn mynd i'r afael â beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau gan gynnwys: cynllun grant i annog y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd rhywiol arloesol ar gyfer pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o

feichiogi yn eu harddegau; cynlluniau gweithredu strategaethau iechyd rhywiol lleol a manylion ynghylch y gwasanaeth; a chanllawiau ar arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau cynghori ar iechyd rhywiol ar gyfer pobl ifanc.

- Mae plant sy'n derbyn gofal ymhlith y grwpiau sydd fwyaf tebygol o feichiogi yn eu harddegau. Drwy'r rhaglen Plant yn Gyntaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Cymdeithas Cynllunio Teulu (fpa Cymru) i ddarparu cyrsiau hyfforddi ar iechyd rhywiol a materion ymddygiad sy'n gysylltiedig â gofal plant sy'n derbyn gofal ar gyfer awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a staff y sector gwirfoddol. O ganlyniad i faterion a ddaeth i'r amlwg drwy'r hyfforddiant hwn mae fpa Cymru yn awr wedi cael eu comisiynu i lunio cyfres o ddalennau briffio ar gyfer staff a gofalwyr plant sy'n derbyn gofal.

- Mae'r Gronfa Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Cychwyn Cadarn yn rhedeg nifer o brosiectau sy'n ymdrin â iechyd rhywiol a beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau. Mae partneriaethau sy'n cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd a mudiadau gwirfoddol yn gweinyddu'r cynlluniau ac yn defnyddio gwybodaeth leol i benderfynu pa brosiectau fyddai orau ar gyfer helpu plant a phobl ifanc yn eu hardal. Ymhlith prosiectau parhaus y mae cynlluniau sydd â’r nod o wella dealltwriaeth pobl ifanc o’r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd rhywiol a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardaloedd hwy eu hunain.

- Mae amddifadedd yn ffactor risg allweddol a gysylltir â merched sy'n beichiogi yn eu harddegau cynnar. Mae'r rhaglen 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' yn berthnasol i lawer o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Canllawiau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn amlinellu'r blaenoriaethau y dylai Partneriaethau lleol eu hystyried wrth lunio eu Cynlluniau Gweithredu Cymuned. Un o'r blaenoriaethau yw helpu i atal beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau, drwy sicrhau bod dulliau atal cenhedlu a chyngor ynghylch iechyd rhywiol a gwasanaethau iechyd rhywiol ar gael i bobl ifanc.

- Mae addysg rhyw a pherthnasau mewn ysgolion yn fater a oedd yn cael ei godi'n gyson mewn ymgynghoriad diweddar rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a phobl ifanc. Ym mis Gorffennaf 2002, cyhoeddwyd canllawiau newydd ar gyfer addysg rhyw a pherthnasau. Bwriedir cynnal cynhadledd ar ffyrdd arloesol o weithredu rhaglenni addysg rhyw a pherthnasau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

- Mae 'Ymestyn Hawliau' yn amlinellu hawliau cyffredinol pob person 11-25 oed sy'n byw yng Nghymru. Bydd 22 o Bartneriaethau Pobl Ifanc yn gweithredu’r hawliau hyn drwy bennu 3 blaenoriaeth leol. Mae nifer o'r partneriaethau wedi pennu iechyd rhywiol fel blaenoriaeth benodol.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:** Suzanne Mckeown, Yr Is-adran Hybu Iechyd - 029 2082 5028. ebost: suzanne.
mckeown@wales.gsi.gov.uk